

Diwygiedig 2018-2033 Cynllun Datblygu Lleol

Datganiad Tir Cyffredin Cefnogi Datblygu Cynaliadwy yn Sir Gaerfyrddin drwy Ddiogelu Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol sy'n Sensitif i Ffosfforws

Ebrill 2024

Datganiad Tir Cyffredin

**Cefnogi Datblygu Cynaliadwy yn Sir
Gaerfyrddin drwy Ddiogelu Ardaloedd
Cadwraeth Arbennig Afonol sy'n Sensitif i
Ffosfforws**

Paratowyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin

Ebrill 2024

Cynnwys / Contents

1. Cyflwyniad	4
1.2. Partneriaid	5
1.3. Daearyddiaeth Strategol	6
1.4. Cefndir	7
1.5. Gwaith Presennol ar Niwtraliaeth Maetholion	11
2. Amcanion y Datganiad Tir Cyffredin	16
3. Cyfrifoldebau Partner.....	17
4. Trefniadau Partner	19
Y Prif Egwyddorion	19
4.1.1.	19
4.1.3.	19
4.1.4.	20
Cytundeb 1	20
Cytundeb 2	21
Cytundeb 3	22
Cytundeb 4	22
Cytundeb 5	23
Cytundeb 6	23
Cytundeb 7	24
5. Statws.....	27

Byrfoddau

CDLI diwygiedig Cynllun Datblygu Lleol (diwygiedig)

APCBB Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

CSC Cyngor Sir Caerfyrddin

CbC Cyd-bwyllgor Corfforedig

CSCe Cyngor Sir Ceredigion

CSPe Cyngor Sir Penfro

DCWW Dŵr Cymru Welsh Water

ARhC Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

IAP Cynllun Gweithredu Interim

ALI Awdurdod Lleol

BRhM Bwrdd Rheoli Maetholion

NM Niwtraliaeth Maetholion

CNC Cyfoeth Naturiol Cymru

CSPo Cyngor Sir Powys

APCAP Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

**Ardal(oedd)
Cadwraeth
Arbennig** Ardal(oedd) Cadwraeth Arbennig

**Ardal(oedd)
Gwarchodaeth
Arbennig** Ardal(oedd) Gwarchodaeth Arbennig

**Nodyn/Nodiadau
Cyngor
Technegol** Nodyn/Nodiadau Cyngor Technegol

CFfD Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr

LIC Llywodraeth Cymru

CRhAD Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr

GTDG Gwaith Trin Dŵr Gwastraff

ASAN Atebion Seiliedig ar Natur

LILIf Rhaglen Lleihau a Lliniaru Ffosffadau

1. Cyflwyniad

1.1.1. Pwrpas y ddogfen hon yw nodi dull cydweithredol i gefnogi datblygiad a gweithrediad [Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033](#)¹, ac i fodloni gofynion Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017)² (y Rheoliadau Cynefinoedd). Mae natur draws-sirol dalgylchoedd [Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol](#)³ yn galw am Ddatganiad o Dir Cyffredin rhwng Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i fynd i'r afael â'r angen am niwtraliaeth maetholion a/neu wella darpariaeth Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig Cyngor Sir Gaerfyrddin er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'r Datganiad o Dir Cyffredin yn hysbysu'r [arolygwyr o sefyllfa gytûn Awdurdodau Cynllunio Lleol](#),⁴ Cyfoeth Naturiol Cymru, a Dŵr Cymru gan ymwneud â'r gofyniad [na ddylai unrhyw ddatblygiad o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Tywi, Afon Teifi ac Afonydd Cleddau gyfrannu mwy at fewnbwn maetholion](#)⁵. Mae'n bwysig nodi nad yw Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig Cyngor Sir Gaerfyrddin yn effeithio ar Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Gwy, Afon Wysg ac Afonydd Cleddau.

1.1.2. Mae dull capasiti/hyblygrwydd Gwaith Trin Dŵr Gwastraff yn cael ei fabwysiadu o fewn dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig Tywi. Mae hyn yn amodol ar y ffaith nad yw'r corff dŵr Ardal Cadwraeth Arbennig yn methu targedau cydymffurfio ar gyfer ffosforws a bod gan y gweithfeydd trin gwasanaethu gapasiti ar gyfer cysylltiadau newydd. Bydd hyn ond yn berthnasol i Weithfeydd Trin Dŵr Gwastraff sydd wedi derbyn trwydded ddiwygiedig fel rhan o broses Adolygu Trwyddedau Cyfoeth Naturiol Cymru. Ni fydd angen i geisiadau cynllunio sy'n ymwneud â datblygiad a

¹ [Ail Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Adneuo \(llyw.cymru\)](#)

² [Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 \(legislation.gov.uk\)](#)

³ [Cyfoeth Naturiol Cymru / Safleoedd a ddiogelir gan gyfraith Ewropeaidd a rhyngwladol](#)

⁴ [Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd sy'n sensitif i ffosforws mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig](#)

⁵ [Cyfoeth Naturiol Cymru / Egwyddorion niwtraliaeth o ran maethynnau mewn perthynas â datblygiadau neu drwyddedau gollwng dŵr arfaethedig](#)

fydd yn cysylltu â'r rhwydwaith carthffosiaeth brofi niwtraliaeth maetholion, ond bydd ceisiadau dim ond yn cael eu caniatáu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol os bydd Dŵr Cymru yn cynghori y gallant brosesu'r dŵr gwastraff/carthffosiaeth ychwanegol o fewn terfynau'r trwyddedau amgylcheddol, fel y'u cyhoeddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru yng Ngweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Dŵr Cymru a'u bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cynefinoedd.

1.2. Partneriaid

1.2.1. Partneriaid dan sylw:

- Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC)
- Cyngor Sir Penfro (CSPe)
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP)
- Cyngor Sir Ceredigion (CSCe)
- Cyngor Sir Powys (CSPo)
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB)
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
- Dŵr Cymru (DCWW)

1.2.2 Cyfeirir at Gyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Powys, Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog at ei gilydd fel Awdurdodau Cynllunio Lleol.

1.3. Daearyddiaeth Strategol

- 1.3.1. Mae Sir Gaerfyrddin yn ffinio â Cheredigion i'r gogledd, Powys i'r dwyrain, a Bannau Brycheiniog, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe i'r de, a Sir Benfro i'r gorllewin. Mae'r Sir yn cael ei draenio gan sawl afon sy'n llifo i Fôr Hafren a Bae Ceredigion. Mae Sir Gaerfyrddin yn croestorri pump o ddalgylchoedd sensitif i ffosffad (P) o fewn ffiniau'r sir, y penderfynwyd bod ganddynt [statws amrywiol o ran cydymffurfiaeth](#)⁶.
- 1.3.2. Mae [Cydbwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru](#)⁷ yn cwmpasu ardaloedd awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. Nod y Pwyllgor yw gwella cynllunio rhanbarthol, cydlynu a darparu trafndiaeth, cynllunio defnydd tir, datblygu economaidd ac ynni. Mae Ceredigion a Phowys yn aelodau o Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru. Dylid nodi bod gan y Cydbwyllgor Corfforedig gyfrifoldeb am baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth. Bydd y Cynllun hwn yn nodi'r polisiau cynllunio strategol ar gyfer y rhanbarthau priodol ledled Cymru ac mae'n ofynnol i Gynlluniau Datblygu Lleol dilynol gydymffurfio â'i bolisiau a'i ddarpariaethau. Dylid nodi, at ddibenion y Datganiad Tir Cyffredin hwn, fod y Cynlluniau Datblygu Strategol yn eu camau ffurfiannol o gael eu paratoi a bydd y ddogfen hon yn ymateb i newidiadau iddynt fel rhan o unrhyw fersiynau yn y dyfodol.
- 1.3.3. Mae'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yr effeithir arnynt (Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Powys, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Gaerfyrddin) yn cynnwys dalgylchoedd afon Ardal Cadwraeth Arbennig sydd dan bwysau o lefelau uchel o fewnbwn maetholion presennol, yn enwedig ffosfforws. Gall y llwyth maetholion ychwanegol o'r cynnydd mewn dŵr gwastraff a/neu'r newid mewn defnydd tir a grëwyd gan gynllun neu brosiect newydd greu 'llwybr effaith' gyda hynny'n gwaethygu'r problemau sy'n ymwneud â llwytho maetholion a welir ar hyn o bryd yn yr afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae pob dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig yn wahanol a bydd llwytho maetholion o ddatblygiad newydd yn cael ei asesu a'i

⁶ [Cyfoeth Naturiol Cymru / Asesiad Cydymffurfedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cymru yn Erbyn Targedau Ffosfforws](#)


⁷ [Cynllun Corfforaethol Cydbwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru \(cjcsouthwest.wales\)](#)

ganiatáu/gwrthod yn unol â hynny. Bydd bodolaeth potensial ar gyfer llwybr effaith o ddatblygiad newydd yn arwain at 'Effeithiau Arwyddocaol Tebygol' ar ecoleg y safleoedd Ewropeaidd oherwydd cynnydd mewn maetholion. Cynhyrchir ffosfforws lle mae datblygiad newydd yn arwain at gynnydd mewn arosiadau dros nos o fewn dalgylch neu'n darparu ar gyfer poblogaeth ychwanegol o fewn dalgylch. Cyfeirir at ffosfforws fel cyfanswm y ffosfforws. Mae'r ffosffad cyfansawdd yn ffurfio ffracsiwn o lwyth cyfanswm y ffosfforws.

- 1.3.4. O fewn ffin Cyngor Sir Caerfyrddin mae Ardal Cadwraeth Arbennig Afonydd Cleddau, Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Tywi, Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi, Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Wysg, ac Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Gwy yn safleoedd Ewropeaidd sydd mewn cyflwr anffafriol neu sy'n agos at gyflwr anffafriol oherwydd crynodiad P gormodol. Mae rhannau o ddalgylchoedd y safleoedd Ewropeaidd hyn o fewn ffiniau gweinyddol Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Powys, Cyngor Sir Ceredigion, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a Chyngor Sir Penfro. Nid yw'r dyraniadau tai yng Nghynllun Datblygu Lleol diwygiedig Sir Gaerfyrddin yn effeithio ar Afonydd Cleddau, Afon Gwy ac Afon Wysg. Mae Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion yn effeithio ar Afon Teifi sy'n draenio drwy Gyngor Sir Caerfyrddin.

1.4. Cefndir

- 1.4.1. Mae'r ardal dan sylw wedi'i nodi yn *ffigur 1*. Mae'n ymwneud yn benodol â'r dalgylchoedd Ardal Cadwraeth Arbennig afonol hynny sy'n croestorri Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin ac Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos Cyngor Sir Ceredigion, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.



Ffigur 1: Ardal y Datganiad Tir Cyffredin

Arweiniodd y dyfarniad diweddar (2018) yn Llys Cyfiawnder Ewrop y cyfeirir ato fel 'Achos yr Iseldiroedd' neu 'Achosion Nitrogen yr Iseldiroedd'⁸ at newid yn y modd y mae'r Rheoliadau Cynefinoedd (fel y'u diwygiwyd, 2017) yn cael eu cymhwyso i gynlluniau neu brosiectau yn y dalgylchoedd safleoedd Dynodedig Ewropeaidd (safleoedd Ewropeaidd o hyn ymlaen) sydd dan bwysau oherwydd lefelau maetholion sydd eisoes yn bodoli. Roedd Achos yr Iseldiroedd yn ymwneud ag effeithiau andwyol posibl llwytho maetholion o arferion amaethyddol yn yr Iseldiroedd ar safleoedd Ewropeaidd Dynodedig. Fodd bynnag, mae dehongliad cyfreithiol Achos yr Iseldiroedd bellach yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol ystyried

⁸ <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX%3A62017CA0293>

effeithiau cynlluniau a phrosiectau newydd a allai gynhyrchu mewnbynnau maetholion ychwanegol i safleoedd Ewropeaidd a bod yn ddigon sicr y gellir dibynnu ar fesurau i leihau llwytho ffosfforws ar adeg rhoi caniatâd⁴.

- 1.4.2. Yn dilyn Achos yr Iseldiroedd, cyngor JNCC ac adroddiad cydymffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyngor cynllunio interim mewn perthynas â cheisiadau cynllunio newydd sydd â'r potensial i gynyddu lefelau ffosfforws (P) mewn afonydd sydd wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig⁴. Mae pump o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig wedi'u nodi yng Ngorllewin Cymru a than bwysau gan grynodiadau maetholion uchel ⁶. Canfu Asesiad Cydymffurfiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cymru (2021), o blith y 107 o gyrff dŵr a aseswyd, fod 39% wedi pasio'r targedau newydd a 61% wedi methu⁶.
- 1.4.3. **Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr** Caiff Afonydd Teifi, Tywi, Cleddau, Gwy ac Wysg eu rheoleiddio o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr⁹. Mae'n ofynnol i'r pump fodloni statws ecolegol 'Da' o dan [Reoliadau Amgylchedd Dŵr y DU \(Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr\) \(Cymru a Lloegr\) 2003, 2017¹⁰](#) y cyfeirir atynt yn y cytundeb hwn fel y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Nid yw pob corff dŵr yn bodloni'r statws ecolegol Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr sydd ei angen heddiw a gallai'r statws presennol ddirywio gyda mewnbwn maetholion ychwanegol.
- 1.4.4. **Cyfarwydddeb Cynefinoedd:** Mae rhannau o Afon Teifi, Tywi, Cleddau, Gwy ac Wysg yn safleoedd Afonol Ardal Cadwraeth Arbennig a Safleoedd Morol Ewropeaidd. Bydd angen asesiad o dan y Rheoliadau Cynefinoedd i unrhyw addasiad i ganiatâd sydd o bosib yn angenrheidiol i ddarparu capasiti ar gyfer mwy o ddatblygu.
- 1.4.5. **AMP7 2020-2025 Dŵr Cymru:** Mae'r rhaglen strategaeth fuddsoddi arfaethedig ar gyfer lleihau ffosfforws yn nodi y bydd pob gwaith trin dŵr gwastraff yn cydymffurfio ag adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru o drwyddedau erbyn 2032 gydag o leiaf 90%

⁹ <https://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/>

¹⁰ [Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr \(Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr\) \(Cymru a Lloegr\) 2017 \(legislation.gov.uk\)](#)

o gyfran Dŵr Cymru o'r gostyngiad ffosfforws y mae'n ofynnol ei gwblhau erbyn 31/3/30. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i weithfeydd trin dŵr gwastraff sy'n gollwng i gyrff dŵr Ardal Cadwraeth Arbennig sy'n methu. Mae'r Adolygiad o Drwyddedau'n ymwneud â'r gweithfeydd trin dŵr gwastraff hynny sy'n gollwng dros 20m^3 / diwrnod o Llif Tywydd Sych i Ardal Cadwraeth Arbennig neu sy'n gollwng i gorff dŵr heb ei ddynodi sy'n draenio i mewn i Ardal Cadwraeth Arbennig (h.y., lle nad oes terfyn TP ar waith ar hyn o bryd), a bydd yn bodloni terfyn trwydded amgylcheddol wrth gefn o 5 mg / l . Llif Tywydd Sych yw'r llif dyddiol cyfartalog sy'n cyrraedd gwaith trin dŵr gwastraff yn ystod cyfnod heb law, cyfrifir Llif Tywydd Sych gan ddefnyddio methodoleg ddiffiniedig ac yn seiliedig ar asesiad ystadegol o'r llifoedd sy'n cyrraedd gweithfeydd trin dŵr gwastraff. Bydd safleoedd sydd â Llif Tywydd Sych rhwng 20 a $50\text{m}^3/\text{d}$ (nad oes ganddynt fetrau llif Mcert wedi'u gosod) yn defnyddio cyfrifiad yn seiliedig ar y boblogaeth a wasanaethir ac amcangyfrif o ymdreiddiad nodweddiadol. O dan raglen bresennol AMP7 a rhwymedigaethau AMP8 Dŵr Cymru, mae buddsoddiad eisoes wedi'i ddyrannu i wella'r broses o waredu ffosfforws mewn dau o weithfeydd trin dŵr gwastraff, a'r lleoliadau hyn yw Llanbedr Pont Steffan a Llanybydder, a fydd yn derbyn llifau o safleoedd yng Nghyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Caerfyrddin.

- 1.4.6. **AMP8 2025-2030 Dŵr Cymru:** Mae hyn yn nodi bwriad Dŵr Cymru i sicrhau gwerth £1.4bn o fuddsoddiad mewn systemau dŵr gwastraff er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Bydd cydweithio â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Cynllunio Lleol yn allweddol i sicrhau diogelu'r amgylchedd.
- 1.4.7. **Afonydd Teifi:** Mae'r cyfuniad o'r tri Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi cyfanswm o 30 (47% o Gyngor Sir Caerfyrddin, 47% o Gyngor Sir Ceredigion a 6% o Gyngor Sir Penfro) o safleoedd yn nalgylch afonol Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Teifi. Y cyfrif faetholion gronrus i liniaru yn seiliedig ar y terfyn P olaf un o 5 mg/l yw $487.51\text{ kg TP/blwyddyn}$. Byddai hyn yn caniatáu i gyfanswm o 842 o unedau preswyl gael eu cyflwyno o'r Cynlluniau Datblygu Lleol priodol (189 uned ar gyfer Sir Gaerfyrddin, 592 uned ar gyfer Ceredigion a 61 uned ar gyfer Sir Benfro). Dyraniadau tai yng Nghynllun Datblygu Lleol Ceredigion yw'r gyfran fwyaf (64%) o gyfanswm y cyfrif maetholion yn Ardal Cadwraeth Arbennig Teifi, ac yna Sir Gaerfyrddin (27%) a Sir Benfro (9%).

1.5. Gwaith Presennol ar Niwtraliaeth Maetholion

- 1.5.1. Cynhaliodd Prif Weinidog Cymru yr Uwchgynhadledd Ffosfforws gyntaf ym mis Gorffennaf 2022 yn Sioe Frenhinol Cymru. Ym mis Mawrth 2023, amlygwyd ymhellach yn yr Ail Uwchgynhadledd Llygredd Afonydd, a fynychwyd eto gan gynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol, yr angen am Gynllun Gweithredu Llygredd Afon ac am ddatblygu atebion ar frys. Ym mis Tachwedd 2023, cynhaliwyd Trydedd Uwchgynhadledd Llygredd Afonydd.
- 1.5.2. Cyngor Sir Caerfyrddin oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i ddatblygu Cyfrifiannell Cyfrifo Maetholion. Mae'r gyfrifiannell honno bellach wedi cael ei ehangu i ffurfio Cyfrifiannell Cyfrifo Maetholion Gorllewin Cymru. Fe'i cynlluniwyd i helpu i hwyluso datblygwyr gyda chyfrifo eu cyllideb ffosfforws. Mae'r Ddogfen Ganllaw a'r Adolygiad Technegol yn cyd-fynd â'r gyfrifiannell.
- 1.5.3. Crëwyd canllawiau lliniaru gan Gyngor Sir Caerfyrddin ac maent ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi ei ddewislen lliniaru. Mae'n rhaid i unrhyw fesurau lliniaru a fwriedir i osgoi neu liniaru effeithiau ffosfforws posibl ddangos eu bod yn seiliedig ar y 'dystiolaeth orau sydd ar gael', yn effeithiol 'y tu hwnt i amheuaeth resymol', wedi'u seilio ar amcangyfrifon 'rhagofalus', ac yn rhai y gellir eu sicrhau 'am byth' (80-125 mlynedd). Er bod disgwyl i'r llinell sylfaen wella trwy ostyngiad ehangach mewn ffosffadau trwy weithfeydd trin dŵr gwastraff a gwelliannau o ran defnydd tir, y nod yw sicrhau bod gan ddatblygwyr hefyd ffordd symlach o liniaru llygredd maetholion, gan ganiatáu i adeiladu arfaethedig barhau a chreu datblygiadau newydd ledled y wlad.
- 1.5.4. Mae gwelliannau i waith trin dŵr gwastraff yn cael eu manylu yn [Rhaglen Ffosfforws Dŵr Cymru](#).¹¹
- 1.5.5. Cynorthwyodd Cyngor Sir Caerfyrddin y Byrddau Rheoli Maetholion i sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid Afonydd Gorllewin Cymru.

¹¹ [Afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig: Adroddiadau Dosrannu Ffynonellau | Dŵr Cymru Welsh Water \(dwrcymru.com\)](#)

- 1.5.6. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu Dros Dro sy'n amlinellu'r llwybrau posibl sydd ar gael i'r Awdurdod Lleol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar gadwraeth amcanion rhywogaethau a chynefinoedd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig perthnasol, sy'n deillio o'i Gynllun Datblygu Lleol diwygiedig. Ac felly'n dangos sut y gellir cydymffurfio â Rheoliadau Cynefinoedd.
- 1.5.7. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi helpu i sefydlu Bwrdd Rheoli Maetholion ar gyfer dalgylchoedd Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Tywi, Teifi a Cleddau. Mae'r byrddau hyn yn gyfrifol am gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Maetholion i wella cyflwr yr afon ac archwilio'r defnydd o atebion sy'n seiliedig ar natur a nodwyd gan yr Awdurdod. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithio'n rhagweithiol ac ar y cyd ar draws yr is-ranbarth a Chymru.
- 1.5.8. Cysylltodd Cyngor Sir Caerfyrddin â DTA Ecology i gynhyrchu adroddiad ar gymhwyso niwtraliaeth maetholion o fewn dalgylch hyblygrwydd - dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Tywi. Mae'r cyngor a'r dehongliad a ddarperir gan DTA Ecology wedi rhoi esboniad ar sut y gall y Cyngor lywio caniatâd cynllunio a rheoli maetholion o fewn dalgylch hyblygrwydd.
- 1.5.9. Comisiynodd Cyngor Sir Caerfyrddin 'Astudiaeth Teifi' sy'n astudiaeth dichonoldeb lliniaru maetholion lefel uchel. Adeiladodd y prosiect Lleihau a Lliniaru Ffosffadau ar hyn i gynnwys ymchwiliadau tir, costau cywir, ymgysylltu â thirfeddianwyr a'r holl ddeunydd ategol i ddod â dwy wlyptir adeiledig i'r cam cais cynllunio. Mae hyn wedi cynhyrchu lleoliadau gwlyptir posibl ar draws dalgylch Afon Teifi, gan gynnwys cyfleoedd o fewn ardaloedd Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Penfro, gyda'r nod o adfer afonydd. Mae adroddiadau ymgynghorol ffermydd wedi arwain at welliannau seilwaith, canllawiau tanc septig, systemau draenio cynaliadwy, byrddau gwybodaeth a ffensys ar lannau afonydd. Mae'r prosiect Lleihau a Lliniaru Ffosffadau hefyd yn cynnwys ymchwilio i waith lliniaru ffosffadau eraill a gwelliannau ecolegol. Mae'r rhain yn cynnwys coetiroedd gwlyb a pharthau clustogi afonol.
- 1.5.10. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynhyrchu Strategaeth Rheoli Maetholion. Mae'r Strategaeth yn cydnabod y manteision ehangach megis gwerth amwynder, gwella

bioamrywiaeth a nodau cadwraeth gyda ffocws penodol ar atebion seiliedig ar natur a gwelliannau amgylcheddol ehangach o fewn dalgylchoedd Ardal Cadwraeth Arbennig Tywi a Teifi. Bydd yr adnodd yn amlinellu cyfleoedd buddsoddi posibl gan drydydd partïon sy'n edrych ar fuddsoddi mewn atebion seiliedig ar natur. Bydd agwedd allweddol yn cysylltu strategaethau gweithredu eraill y mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn eu cyflawni i ganiatáu dull cydlynol, amlswyddogaethol o gynllunio a datblygu yn y sir. Bydd y ddogfen yn archwilio arferion gorau, technolegau a dulliau arloesol o reoli maetholion ac yn tynnu sylw at fentrau effeithiol ac effeithlon. Bydd yn ystyried elfennau cost lefel uchel ar gyfer strategaethau lliniaru maetholion, y potensial ar gyfer cyfraniadau datblygwr a phentyrru buddion a chyllid cyfunol. Bydd gweithredu a chyflawni hyn yn cael ei gofnodi trwy ddyrannu rolau a chyfrifoldebau, llinell amser benodol, monitro a gwerthuso cynnydd a rheoli risg a newid.

Er mwyn sicrhau bod lliniaru maetholion yn cyd-fynd â chyflwyno dyraniadau tai o fewn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig mewn modd amserol a hyfyw yn ariannol, cynhyrchwyd y dogfennau a restrir yn nhabl 1. Yn dilyn adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru o drwyddedau mae cyfrifiadau cyllideb maetholion wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu'r terfyn wrth gefn o 5mg / l. Mae hyn wedi ymgorffori hyder ymhellach yn null Cyngor Sir Caerfyrddin o ran lliniaru maetholion yn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig gan gynnwys dichonoldeb technegol ac ariannol prosiectau o'r fath.

Rhanddeiliaid	Gwaith a Dogfennau i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig
Cyngor Sir Caerfyrddin	• Cyfrifiannell Cyfrifo Maetholion. • Canllaw y Gyfrifiannell Cyfrifo Maetholion. • Adolygiad Technegol y Gyfrifiannell Cyfrifo Maetholion. • Adolygiad Technegol y Canllawiau Lliniaru. • Adnodd Datblygwyr. • Cynllun Gweithredu Interim. • Atodiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. • Strategaeth Rheoli Maetholion. • Datganiad Tir Cyffredin. • Papur Pwnc: Ffosforws. • Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Tywi: Cymhwyso Niwtraliaeth Maetholion mewn Dalgylch Hyblygrwydd. • Astudiaeth Ddichonoldeb Masnachu Credyd Arup • Cyllideb Rheoli Maetholion Teifi ac Astudiaeth Ddichonoldeb Gwlyptir.
Cyngor Sir Ceredigion	• Prosiect Lleihau a Lliniaru Ffosffadau • Dyfarniad monitro ansawdd dŵr SPF £250,000.
Dŵr Cymru	• Adroddiadau Dosrannu Ffynonellau ar gyfer dalgylchoedd afonydd Tywi, Teifi a Cleddau. • Rhaglen AMP7 ac AMP8 • Gweithgor Afon Teifi. • Rhaglen Gorlif Carthffosiaeth Gyfun. • Rhestr Rhaglen Ffosforws. • Dogfennau Cydweithio.

	• Ein Maniffesto ar gyfer Afonydd.
Cyfoeth Naturiol Cymru	• Polisi Gwlyptir. • Dewislen Liniaru. • Adolygiad o Drwyddedau Amgylcheddol. • Asesiad Cydymffurfiaeth o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn erbyn Targedau Ffosforws. • Cyngor i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosforws. • Prosiect Afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig. • Tîm Rheoleiddio Amaethyddiaeth. • Prosiect Monitro Llaeth.
Byrddau Rheoli Maetholion	• Cylch Gorchwyl. • Grŵp Cyngor Technegol Rhanbarthol. • Grŵp Rhanddeiliaid Afonydd Gorllewin Cymru. • Swyddog Cymorth Bwrdd Rheoli Maetholion. • Rheolwr Rhaglen y Bwrdd Rheoli Maetholion.
Llywodraeth Cymru	• Cynllun Gweithredu Llygredd Afonydd. • Organogram. • Grŵp Masnachu Maetholion T&F. • Cyfrifiannell Cymru Gyfan. • Cytundeb Cyllido ar gyfer Byrddau Rheoli Maetholion (3 blynedd). • Datganiad Cyfeiriad.

Tabl 1: Gwaith a wnaed hyd yn hyn.

2. Amcanion y Datganiad Tir Cyffredin

- 2.1.1. Egluro rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid priodol a datblygwyr y dyfodol o ran cyfrannu tuag at ddarparu seilwaith carthffosiaeth digonol a'r capasiti triniaeth sy'n ofynnol i gefnogi datblygiad newydd.
- 2.1.2. Cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin a'r dyheadau twf yn yr ardaloedd a wasanaethir gan weithfeydd trin dŵr gwastraff Dŵr Cymru, a helpu i benderfynu ar geisiadau cynllunio mewn modd effeithlon, drwy bennu dull cydlynol a thryloyw.
- 2.1.3. Meithrin hyder y cyhoedd a'r datblygwr y bydd y dull cydweithredol yn sicrhau capasiti seilwaith carthffosiaeth digonol i ddiogelu ansawdd dŵr, lle mae'r paramedr dan sylw yn ffosffad, ac o bosibl yn cyfrannu at wrthsefyll materion llifogydd lleol.

3. Cyfrifoldebau Partner

Gyda'i gilydd, cyfrifoldeb partneriaid yw cydymffurfio â'r dyletswyddau canlynol a'u gweithredu, sy'n berthnasol i gadwraeth a gwella'r cyrff dŵr Ardal Cadwraeth Arbennig:

- Datganiad Ardal De-orllewin Cymru a themâu *'gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth a'i gwella'* a *'sicrhau rheoli tir yn gynaliadwy'*;
- Adran 6 o ddyletswydd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynnal a gwella bioamrywiaeth;
- Rheoliad 14/15 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a chydlynw rhwng cyrff cyhoeddus at ddibenion paratoi a gweithredu Cynlluniau Ardal;
- Dyletswydd o dan Reoliad 16A o Reoliadau Cynefinoedd i reoli rhwydwaith y safle gyda'r bwriad o gyflawni'r amcanion rheoli;
- Yr holl bartneriaid i gymryd agwedd ragweithiol at hwyluso'r gwaith o gyflawni canlyniadau bioamrywiaeth a chydnerthedd (paragraff 6.4.8 Polisi Cynllunio Cymru);
- Awdurdodau cynllunio yn gallu dangos eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella bioamrywiaeth (paragraff 6.4.8 Polisi Cynllunio Cymru);
- Polisi 9 Cymru'r Dyfodol 2040 a nodi cyfleoedd i wneud y mwyaf o ardaloedd posibl i wella gwytnwch rhwydweithiau ac ecosystemau ecolegol.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Awdurdodau Lleol yn gyfrifol hefyd am nodi'r cyd-destun strategol ar gyfer datblygiadau'r dyfodol ac amcanion defnydd tir o fewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae Awdurdodau Lleol hefyd yn gyfrifol am benderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â pholisïau a darpariaethau eu Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu'n wahanol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn awdurdod cymwys o dan y Rheoliadau Cynefinoedd sy'n gyfrifol am benderfynu ar drwyddedau'r amgylchedd o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016. Wrth arfer y swyddogaeth hon, gall Cyfoeth Naturiol Cymru benderfynu ar amodau trwyddedau ar gyfer gollyngiadau presennol neu newydd, monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â thrwyddedau, rheoli amddiffyn rhag llifogydd ac ymgynghori ar ddatblygiadau newydd i sicrhau nad yw'n torri polisïau amddiffyn rhag llifogydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cymryd rôl corff ymgynghori priodol ar natur o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

Mae Dŵr Cymru yn gyfrifol am gasglu, trin a gwaredu carthion yn yr ardaloedd y mae gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn eu gwasanaethu. Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau carthffosiaeth i'w gwsmeriaid, gan gydymffurfio â'i drwyddedau gollwng amgylcheddol a bennir gan Gyfoeth Naturiol Cymru a darparu ar gyfer datblygiad priodol. Mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig a chwarae ei ran wrth wella [statws ecolegol Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a bodloni'r Rheoliadau Cynefinoedd](#) ar gyfer Afon Teifi, Tywi, Cleddau, Gwy ac Wysg, yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Mae dyletswydd ar Dŵr Cymru i wella, cynnal ac ymestyn ei systemau dŵr a charthffosiaeth o dan adrannau 37 a 94 o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991 a'i nod yw sicrhau bod seilwaith digonol yn bodoli ar gyfer datblygiadau domestig, a reolir mewn Cyfnodau Rheoli Asedau treigl o 5 mlynedd.

4. Trefniadau Partner

Mae'r datganiadau canlynol yn cyflwyno safbwynt cytunedig rhwng yr Awdurdodau Cynllunio Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru sy'n hwyluso Niwtraliaeth Maetholion mewn dalgylchoedd Ardal Cadwraeth Arbennig sy'n methu a Dull Hyblygrwydd mewn dalgylchoedd sy'n pasio trwy gydol y gwaith o gyflawni Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig Cyngor Sir Caerfyrddin. Gellir diffinio Niwtraliaeth Maetholion fel dull ar gyfer rheoli datblygiadau newydd a chynigion trwyddedau gollwng dŵr i'w hatal rhag achosi unrhyw gynnydd net mewn maetholion trwy gydol yr awdurdodiad¹². Gellir diffinio dull hyblygrwydd fel caniatáu datblygiad carthffosydd hyd nes y cyrhaeddir capasiti gweithredol gwaith trin dŵr gwastraff fel a bennir gan drwydded yr amgylchedd. Dalgylchoedd sy'n pasio yw'r ardaloedd hynny o Ardal Cadwraeth Arbennig afonol sy'n cydymffurfio â thargedau ansawdd dŵr, ffosfforws yn benodol, fel yr asesir a'i bennir gan Gyfoeth Naturiol Cymru¹³. Mae partneriaethau dalgylch yn ymwneud â rhanddeiliaid ychwanegol sy'n cynrychioli ac yn gweithredu i ddiogelu ac adfer cynefinoedd afonol ac ansawdd dŵr. Er enghraifft, Grŵp Rhanddeiliaid Afonydd Gorllewin Cymru'r Bwrdd Rheoli Maetholion.

Y Prif Egwyddorion

- 4.1.1. Bydd pob parti yn cydweithio i archwilio a datblygu atebion yn unol â'r holl gyfrifoldebau statudol.
- 4.1.2. Pan fo newidiadau mewn polisi a sylfaen dystiolaeth wyddonol yn digwydd, dylid ystyried atebion newydd, a gellir ychwanegu cytundebau gyda chaniatâd pob parti.
- 4.1.3. Wrth gynnal asesiad o dan reoliad 63 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 mewn perthynas â chais cynllunio, efallai na fydd yn ofynnol i Gyngor Sir Caerfyrddin asesu goblygiadau datblygu ar ollyngiadau o weithfeydd trin dŵr gwastraff lle gellir dangos y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn asesu hyn yn 'fwy priodol' (fel yr awdurdod cymwys sy'n gyfrifol am y drwydded amgylcheddol). Bydd hyn yn fater o farn ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin o dan

¹² <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/our-role-in-planning-and-development/principles-of-nutrient-neutrality-in-relation-to-development-or-water-discharge-permit-proposals/?lang=cy>

¹³ <https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/water-reports/compliance-assessment-of-welsh-river-sacs-against-phosphorus-targets/?lang=cy>

amgylchiadau'r cais cynllunio hwnnw. Mae'n rhesymol rhagweld y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru allu cynghori Cyngor Sir Caerfyrddin yn hyn o beth yn hytrach na disgwyl i Gyngor Sir Caerfyrddin gynnal ei asesiad annibynnol ei hun. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu rhai trwyddedau, y sbardun yw'r ddyletswydd i osgoi effaith andwyol ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn enwedig amodau anffafriol ac mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r trwyddedau diwygiedig penodol hyn. Gall Cyngor Sir Caerfyrddin ohirio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o dan yr amgylchiadau penodol pan gaiff ei gwblhau fel mater o ddyfarniad technegol y byddai hyn yn briodol. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynghori Cyngor Sir Caerfyrddin ar hyn, yn unol â dyletswyddau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru yn cytuno i gydymffurfio ag Erthygl 6(2) na ddylai'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig fod yn gyfrwng ar gyfer cyflawni'r ymrwymadau hynny er y bydd yn ceisio alinio lle bo hynny'n bosibl. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod y bydd y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig yn alinio lle bo hynny'n bosibl drwy'r mesurau categori 2, ond mae'r cyfrifoldeb o dan Erthygl 6(3). Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno i gynghori Cyngor Sir Caerfyrddin ar hyn pan ymgynghorir ag ef bryd hynny, yn unol â dyletswyddau statudol Cyfoeth Naturiol Cymru.

- 4.1.4. Gan gyfeirio at reoliad 67, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymrwymo i ofyn am eglurhad pellach gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru ynghylch hyd a lled eu dyletswyddau fel awdurdod cymwys lle mae prosiect yn dibynnu ar (h.y. angen) trwydded a roddir gan awdurdod cymwys arall. Mae hyn yn ymwneud â datblygiad y tu allan i'r rhwydwaith carthffosydd a fyddai'n cael ei wasanaethu trwy ddulliau eraill megis tanc septig neu Gyfleuster Trin Parod. Dylai unrhyw gynnig sy'n ceisio defnyddio Cyfleuster Trin Parod gael ei gefnogi gan raglen reoli a chynnal a chadw gadarn, a dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol (a rhanddeiliaid eraill lle bo hynny'n briodol) fod yn fodlon â'r trefniadau a bennir.

Cytundeb 1

- 4.1.5. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Caerfyrddin ac Awdurdodau Lleol cyfagos yn gweithio gyda'r Byrddau Rheoli Maetholion i ddatblygu dull strategol o leihau lefelau maetholion o fewn dalgylchoedd Ardal Cadwraeth Arbennig dŵr croyw afonol Tywi, Teifi a Cleddau. Mae'r Byrddau Rheoli

Maetholion yn cynhyrchu Cynlluniau Rheoli Maetholion dalgylch a dylai rhanddeiliaid fynychu'r gweithdai a gynlluniwyd a darparu gwybodaeth ategol wrth ddatblygu'r cynlluniau hyn. Mae awdurdodau cyfagos yn cytuno i gyfrannu at y Cynlluniau Rheoli Maetholion lle mae dalgylchoedd afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig yn croesi ffiniau siroedd. Y nod yw drafftio'r cynlluniau hyn erbyn haf 2024.

Cytundeb 2

- 4.1.6. Bydd ymagwedd strategol at leihau ffosforws o fewn Afon Tywi, Teifi a Cleddau yn cael ei chyflwyno drwy Fwrdd Rheoli Maetholion ar gyfer pob dalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig afonol. Mae'r Byrddau Rheoli Maetholion yn datblygu cynlluniau rheoli dalgylchoedd. Bydd yr Awdurdodau Lleol yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu dull strategol o leihau lefelau ffosforws yn eu dalgylchoedd Ardal Cadwraeth Arbennig. Cytunwyd ar aelodaeth a Chylch Gorchwyl ar gyfer y Byrddau Rheoli Maetholion. Mae Datganiad Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru yn nodi disgwyliadau cyffredin ar gyfer y Byrddau Rheoli Maetholion a'r rôl y mae'n ei rhagweld y bydd y Byrddau Rheoli Maetholion yn ei chwarae. Mae pob Bwrdd Rheoli Maetholion wedi'i gyfansoddi i adlewyrchu anghenion lleol, sy'n cynorthwyo i gyflawni'r nodau yn y Datganiad Cyfeiriad. Cytunir, yn ogystal â ffosforws sy'n deillio o ddatblygiadau preswyl yn y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig, fod ffactorau sylweddol eraill sy'n cyfrannu at lefelau ffosforws afonol. Cytunir bod y Byrddau Rheoli Maetholion yn gweithredu o fewn y fframwaith rheoleiddio presennol i fynd i'r afael â'r broblem o ffosforws gormodol mewn afonydd, a lle mae'r mesurau hynny'n hwyluso datblygiad i sicrhau ei fod yn gweithredu am byth lle bo angen ac mewn modd sy'n bodloni egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae Erthygl 6 (2) o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn gosod dyletswydd statudol ar y DU i gymryd camau priodol i osgoi dirywiad cynefinoedd naturiol a chynefinoedd rhywogaethau o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Bydd y dyletswyddau ar draws cyrff statudol yn cael eu hadlewyrchu yn nodau/amcanion y Bwrdd Rheoli Maetholion i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r afonydd, a'r effeithiau economaidd-

gymdeithasol ar eu cymunedau wrth wneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau'r sector cyhoeddus.

Cytunir y bydd y Byrddau Rheoli Maetholion yn darparu'r canlynol cyn archwilio Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin yn gyhoeddus:

- a. Cytuno ar aelodaeth a Chylch Gorchwyl y Byrddau Rheoli Maetholion;
- b. Sefydlu a chytuno ar atebolrwydd, rolau a chyfrifoldebau;
- c. Cytuno ar amserlenni ar gyfer cynhyrchu cynlluniau rheoli dalgylch ar gyfer Dalgylchoedd Afon Cleddau, Teifi a Tywi.
- d. Llunio dogfen sydd ar gael i'r cyhoedd, yn amlinellu rôl a chyfrifoldebau'r Byrddau Rheoli Maetholion.

Cytundeb 3

4.1.7. Cytunir y bydd pob parti yn ymdrechu i rannu unrhyw wybodaeth berthnasol sydd ganddynt ar hyn o bryd ynghylch ffynonellau, crynodiadau a llwythi ffosfforws, ac unrhyw fesurau posibl i gyflawni gostyngiadau ffosfforws a gostyngiadau ffosfforws disgwyledig a allai fod yn gysylltiedig â mesurau o'r fath yn Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Tywi, Teifi a Cleddau pan ar gael. Mae Dŵr Cymru yn cytuno i gyflwyno data o'r fath yn flynyddol.

4.1.8. Mae Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno ar y data monitro datgelu sy'n ymwneud â'r mesuriadau diweddaraf a gofnodwyd ar gyfer paramedr penodol mewn corff dŵr penodol ar adeg y cais. Deallir efallai fod hyn yn destun Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

Cytundeb 4

4.1.9. Er mwyn pennu dull cydweithredol, mae'n bosibl y bydd datrysiadau lliniaru sy'n darparu budd i awdurdodau cyfagos yn cael eu defnyddio gan yr Awdurdodau Lleol sy'n bartneriaid. Mae hyn yn cadw at y natur croesi ffiniau sirol sy'n perthyn i leihau ffosfforws. Mae'r tri awdurdod yn cytuno i ddefnyddio atebion lliniaru sy'n darparu buddion croesi ffiniau sirol. Mae'r llofnodwyr yn cytuno i weithio gyda'i gilydd i ddarparu atebion tymor byr, tymor canolig a thymor hir er mwyn peidio â chreu unrhyw effeithiau andwyol. Yn ogystal, rhaid rhannu unrhyw ddogfennau strategol

o ran lliniaru maetholion, astudiaethau dichonoldeb a chanlyniadau gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n bartneriaid mewn modd amserol. Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn cytuno i ddarparu diweddariadau i Gyngor Sir Caerfyrddin a Chyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer unrhyw ddatblygiad arfaethedig a allai effeithio ar lwytho maetholion corff dŵr y mae ei ddalgylch yn draenio o fewn ffiniau sirol Cyngor Sir Caerfyrddin. Ac felly, caniatáu i roi'r sylw diweddaraf i gyllidebau maetholion ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, gan ystyried y sefyllfa ddiwygiedig ers y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol. Ymgynghorir â Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd diweddaraf yn unol â gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd.

- 4.1.10. Mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol sicrhau nad yw lleoliad mesurau lliniaru yn arwain at gynnydd net mewn ffosforws dros ddalgylch Ardal Cadwraeth Arbennig.
- 4.1.11. Cytunir y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried gwerth cefnogi Systemau Draenio Cynaliadwy mewn Parthau Perygl Llifogydd 1 a 2.
- 4.1.12. O fewn terfyn eu swyddogaethau statudol, mae Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno i gefnogi Awdurdodau Lleol i ddarparu mesurau lliniaru a fydd yn mynd i'r afael â'r gyllideb faetholion a gynhyrchir gan y CDLI diwygiedig. Cyflwynir yr atebion lliniaru hyn yng Nghanllawiau Lliniaru Technegol Ricardo, Cynllun Gweithredu Dros Dro a Dewislen Lliniaru gyfatebol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cytundeb 5

- 4.1.13. Mae niwtraliaeth maetholion wedi'i diffinio gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac mae adnoddau wedi cael eu cynhyrchu gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch sut y dylid cyfrif ac arddangos hyn. Mae'r llofnodwyr yn cytuno y bydd datblygiad yn cael ei gyflawni yn unol â'r canllawiau a ddarperir gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Cyfrifoldeb y datblygwr yw dangos i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru, fel rhan o'r broses gynllunio, fod ei ddatblygiad yn bodloni'r gofynion hyn.

Cytundeb 6

- 4.1.14. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu cyngor i Gyngor Sir Caerfyrddin yn ei rôl fel Corff Cadwraeth Natur Priodol i sicrhau bod fersiwn wedi'i

ddiweddaru/diwygiedig o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'i gasgliadau yn darparu sylfaen gadarn i gefnogi argymhellion yr Arolygwyr ac i fabwysiadu'r Cynllun. Deallir na all Cyfoeth Naturiol Cymru warantu y bydd y cyngor hwn yn cael ei weithredu. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin angen hyblygrwydd a chyfle i archwilio'r defnydd o bwerau statudol i fodloni gofynion unigryw achosion o geisiadau cynllunio unigol.

Cytundeb 7

- 4.1.15. Bydd Dŵr Cymru yn briffio pob parti am ei gynlluniau i leihau ffosffad o fewn dalgylchoedd Ardal Cadwraeth Arbennig Tywi, Teifi a Cleddau.
- Ymrwymiad i rannu'r rhaglen buddsoddi ffosfforws i Gyngor Sir Caerfyrddin. Deallir bod hyn yn amodol ar adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru o drwyddedau amgylcheddol a chymeradwyo Cynllun Busnes Dŵr Cymru gan Ofwat. Yn dilyn hyn, bydd Dŵr Cymru yn darparu amserlen o fuddsoddiad wedi'i gynllunio yng ngweithfeydd trin dŵr gwastraff gan gynnwys rhagor o fanylion am fanylion a dyddiadau cwblhau'r gwaith. Nodir y gall Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Dŵr Cymru newid os oes tystiolaeth i wneud hynny, mewn cytundeb â rheoleiddwyr.
 - Cytundeb gan bob parti, lle mae Dŵr Cymru yn bwriadu uwchraddio gwaith trin dŵr gwastraff Categori A fel rhan o'i raglenni AMP7 ac AMP8 ac i fodloni gofynion trwyddedau amgylcheddol, a bod datblygiad yn cael ei gyflwyno fesul cam ar ôl y gwelliant hwnnw, nad yw niwtraliaeth maetholion yn ofynnol (h.y. darperir capasiti cyn datblygu a'i sicrhau drwy amodau Grampian). Mae hyn yn ddarostyngedig i ganllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru, h.y. os gellir uwchraddio gwaith trin dŵr gwastraff er mwyn cynyddu'r capasiti ar gyfer symud P, gallai hyn alluogi dod i gasgliad o ddim AEOIS. Mater i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ei ystyried yw Niwtraliaeth Maetholion. Mae Dŵr Cymru yn ymrwymo i helpu Cyngor Sir Caerfyrddin i lunio cynllun fesul cam. Ymrwymiad gan Dŵr Cymru i weithio gyda Chyngor Sir Caerfyrddin i ddatblygu cynllun fesul cam o ddatblygu yn erbyn gwella/caniatáu gwaith trin dŵr gwastraff fel bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn fwy ymwybodol o'r rhwystrau a'r cyfleoedd. Bydd Dŵr Cymru fel ymgynghorai statudol yn y broses gynllunio yn ystyried capasiti biolegol a hydrolig cyffredinol unrhyw waith trin dŵr gwastraff. Fodd bynnag, nodir mai mater i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yw penderfynu pa

geisiadau sy'n gyfreithlon a dylai unrhyw asesiad ystyried barn ymgylgoreion statudol yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

- c. Cytundeb mewn egwyddor y byddai datblygiadau sy'n cysylltu â gwaith trin dŵr gwastraff lle nad oes buddsoddiad wedi'i gynllunio, sy'n gofyn am niwtraliaeth maetholion, y byddai gwlyptiroedd a ffurfiau eraill o liniaru maetholion yn cael eu cefnogi gan Awdurdod Lleol cyfagos, Dŵr Cymru, lle nad yw'n effeithio ar ofynion statudol presennol neu ofynion statudol y dyfodol Dŵr Cymru. Ymrwymiad i weithio ar y cyd i rannu gwybodaeth a fyddai'n cefnogi gwaith dylunio / cynllunio. Cytundeb bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn penderfynu pa mor briodol yw mesurau lliniaru o'r fath sy'n galluogi canlyniad o ddim effeithiau sylweddol tebygol.
- d. Byddai hyn yn amodol ar dystiolaeth sy'n benodol i gais. Ymrwymiad i weithio ar y cyd i rannu gwybodaeth a fyddai'n cefnogi gwaith dylunio / cynllunio. Cytundeb bod Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn pennu priodoldeb mesurau lliniaru o'r fath.
- e. Ymrwymiad gan Dŵr Cymru ar gadarnhad o sut olwg fydd ar gymorth yng Nghategori B a Chategori C¹⁴ gwaith trin dŵr gwastraff lle cefnogir atebion seiliedig ar natur. Bydd cadarnhad ar wlyptiroedd yn cael ei gasglu yn unol â'r Cytundeb Cydweithredol y mae Dŵr Cymru wedi'i rannu gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol a Byrddau Rheoli Maetholion. Bydd Dŵr Cymru yn pontio 'cefnogaeth mewn egwyddor' i ymrwymiad llawn i ddargyfeirio ei elifion terfynol pan nad yw hyder yn yr ateb yn peri unrhyw risg i waith trin dŵr gwastraff, gweithrediad a/neu gydymffurfiaeth presennol ac yn y dyfodol.
- f. Mesurau tymor byr sydd eu hangen o bosibl: Mae hyblygrwydd o ran capasiti a datblygu yn amodol ar waith buddsoddi sydd wedi'i gynllunio/ei gadarnhau ar gyfer y dyfodol, os oes angen datblygu cyn gwaith buddsoddi, efallai y bydd angen i fesurau tymor byr/mesurau pontio gael eu hystyried gan Awdurdod Cynllunio Lleol a Dŵr Cymru lle mae'r system garthffosiaeth gyhoeddus yn gysylltiedig.

¹⁴<https://corporate.dwrcymru.com/-/media/project/files/page-documents/our-services/wastewater/sac-rivers/collaboration/english/collaboration-on-phosphorus-reduction-schemes-guidance-2.ashx>

- g. Lle mae niwtraliaeth maetholion yn ofynnol ac nad oes digon o hyblygrwydd o ran capasiti a/neu ddatblygu a lle byddai'n rhaid i unrhyw fuddsoddiad yn y dyfodol yn y gwaith trin dŵr gwastraff aros i'w hystyried mewn Cynllun Rheoli Asedau yn y dyfodol ond ni fyddai unrhyw sicrwydd bod buddsoddiad yn hyfyw neu'n ymarferol, efallai y bydd angen atebion amgen, mewn cydweithrediad â Dŵr Cymru.
- h. Rhoddir ystyriaeth i ddosrannu lwfansau hyblygrwydd lle mae siroedd yn rhannu corff dŵr dalgylch a'r aneddiadau cysylltiedig. Bydd Awdurdodau Lleol yn gweithio i setlo'r dosraniad hyblygrwydd i bob rhan o'r dalgylch. Mae hyn yn gweithio i fynd i'r afael â'r risg y gallai un partner ddefnyddio'r holl hyblygrwydd sydd ar gael cyn y llall neu y gall un partner flaenoriaethu gwahanol fathau o ddatblygiad lle mae capasiti/hyblygrwydd cyfyngedig. Un enghraifft fyddai Llanbedr Pont Steffan lle mae'r brif dref yng Ngheredigion, ond mae aneddiadau pellennig yn Sir Gaerfyrddin - o safbwynt polisi dylid cyfeirio datblygiad i'r dref - ond bydd y galw yn amrywio fel y mae cyflymder gwneud penderfyniadau / agweddau datblygwyr. Mae Dŵr Cymru yn asesu datblygiad ar sail y cyntaf i'r felin ac felly ni allant gadw capasiti yn seiliedig ar fath o ddatblygiad/lleoliad. Felly mater i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yw penderfynu a ydyn nhw am ddosrannu 'hyblygrwydd' i safleoedd penodol.

5. Statws


- 5.1.1. Mae'r Datganiad Tir Cyffredin hwn yn pennu'r ymagwedd gyfunedig at fynd i'r afael â'r problemau ansawdd dŵr a gymerir gan y partïon ac ni ddylid ei ddehongli fel dogfen gyfreithiol rwymol.

Llofnodwyr y dull cydweithredol cytunedig hwn:

Dyddiad:

Helen Lucocq Ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Rhodri Griffiths Ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin



Ar ran Cyngor Sir Ceredigion




Ian Wyatt Ar ran Dŵr Cymru



ARWEINYDD TÎM DPAS De-orllewin Cymru. _Ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru

Emma Gladstonr Ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro



Richard Brown - Ar ran Cyngor Sir Penfro

Peter Morris - Ar ran Cyngor Sir Powys

Gail Pearce Taylor - Ar ran Byrddau Rheoli Maetholion Gorllewin Cymru

